**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1231 (Cy. 65 )

# AER GLÂN, CYMRU

## Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn gwahardd yn gyffredinol ollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg. Gall Cynulliad Cenedaethol Cymru trwy orchymyn wedi'i wneud o dan adran 21 o'r Ddeddf esemptio dosbarthiadau penodedig o leoedd tân o ddarpariaethau adran 20, os yw wedi'i fodloni y gellir eu defnyddio i losgi tanwyddau heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn eithrio o ddarpariaethau adran 20 y dosbarthiadau o leoedd tân sy'n cael eu rhestru yng ngholofn gyntaf yr Atodlen i'r Gorchymyn, yn ddarostyngedig i'r amodau sy'n cael eu rhestru yn ail golofn yr Atodlen honno.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1231 (W. 65 )

# CLEAN AIR, WALES

## The Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 20 of the Clean Air Act 1993 generally prohibits the emission of smoke in smoke control areas. The National Assembly for Wales may by order made under section 21 of the Act exempt specified classes of fireplace from the provisions of section 20, if it is satisfied that they can be used for burning fuels without producing any smoke or a substantial quantity of smoke.

Article 2 of the Order exempts the classes of fireplace listed in the first column of the Schedule to the Order from the provisions of section 20, subject to the conditions listed in the second column of that Schedule.

This Order applies to Wales.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1231 (Cy. 65 )

# AER GLÂN, CYMRU

## Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *22 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i fodloni bod y dosbarthiadau o leoedd tân sy'n cael eu hesemptio gan y Gorchymyn hwn yn medru cael eu defnyddio i losgi tanwyddau heb fod yn danwyddau awdurdodedig heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg, yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 21 o Ddeddf Aer Glân 1993 (**a**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Dosbarthiadau o leoedd tân sy'n cael eu hesemptio o adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993**

**2.** Mae'r dosbarthiadau o leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen, ar yr amodau sy'n cael eu pennu yno, yn cael eu hesemtio o ddarpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sydd yn gwahardd gollyngiadau mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

(a) 1993 p.11 Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau ) 1999 (OS 1999 Rhif 672).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1231 (W. 65 )

# CLEAN AIR, WALES

## The Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *22nd March 2001* |
| *Coming into force* | *1st April 2001* |

The National Assembly for Wales, being satisfied that the classes of fireplace exempted by this Order can be used for burning fuel other than authorised fuels without producing any smoke or a substantial quantity of smoke, makes the following Order in exercise of the powers conferred on it by section 21 of the Clean Air Act 1993 (**a**):

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) This Order may be cited as the Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2001 and comes into force on the 1st April 2001.

(2) This Order applies to Wales.

**Classes of fireplace exempted from section 20 of the Clean Air Act 1993**

**2.** The classes of fireplace described in the Schedule are, upon the conditions there specified, exempted from the provisions of section 20 of the Clean Air Act 1993 (which prohibits smoke emissions in smoke control areas).

(a) 1993 c.11 These powers were transferred to the National Assembley for Wales by Article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999 No. 672).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**a**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

22 Mawrth 2001

22nd March 2001

*D.Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

**Erthygl 2**

## ATODLEN

**Dosbarth y Lle Tân**

Y "Beech Wood Fired Pizza Oven" sy'n cael ei chynhyrchu gan Beech Wood Fired Ovens, Brisbane, Awstralia.

**Amodau**

1. Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i weithredu yn unol â chyfarwydd-iadau'r gwneuthurwyr dyddiedig 3 Mawrth 2000 ac y mae arnynt y cyfeirnod "BBP236UK"

2. Rhaid peidio â defnyddio unrhyw danwydd heblaw pren caled sych sydd heb ei drin.

**Dosbarth y Lle Tân**

Y "Morsø 3400 Owl" Cyfres GB ar gyfer llosgi pren sy'n cael ei chynhyrchu gan Morsø Jernstøberi A/S, Denmarc.

**Amodau**

1. Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i weithredu yn unol â chyfarwydd-iadau'r gwneuthurwyr dyddiedig 1 Ionawr 2000 ac y mae arnynt y cyfeirnod "72345600"

2. Rhaid peidio â defnyddio unrhyw danwydd heblaw-

(a) pren sych sydd heb ei drin, ac sydd wedi ei hollti, ei stacio a'i sychu yn yr aer; neu

(b) briceti pren sydd wedi eu sychu yn yr aer.

**Article 2**

## SCHEDULE

**Class of Fireplace**

The Beech Wood Fired Pizza Oven manufactured by Beech Wood Fired Ovens, Brisbane, Australia.

**Conditions**

1. The fireplace shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's instructions dated 3 March 2000 and bearing the reference "BBP236UK".

2. No fuel shall be used other than untreated dry hardwood.

**Class of Fireplace**

The Morsø 3400 Owl GB Series for wood burning manufactured by Morsø Jernstøberi A/S, Denmark.

**Conditions**

1. The fireplace shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's instructions dated 1 January 2000 and bearing the reference 72345600

2. No fuel shall be used other than-

(a) untreated dry wood, which has been split, stacked and air dried; or

(b) air dried wood briquettes.

(a) 1998 p.38

(a) 1998 c.38

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1231 (Cy. 65 )

# AER GLÂN, CYMRU

Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 1231 (W. 65 )

# CLEAN AIR, WALES

The Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2001

©℗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090237-8

9 780110 902371

**£1.75**

W/221/06/01 ON